"Nid chwi a'm dewisodd i, ond myfi a'ch dewisodd chwi, a'ch penodi i fynd allan a dwyn ffrwyth, ffrwyth sy'n aros. Ac yna, fe rydd y Tad i chwi beth bynnag a ofynnwch ganddo yn fy enw i. Dyma'r gorchymyn yr wyf yn ei roi i chwi: carwch eich gilydd."
(Ioan 15:16-17)

Dyma adnod ble mae Iesu'n atgoffa'i ddisgyblion o ffaith a phwrpas ei alwad rasol iddynt i fod yn gyfeillion ac yn ddilynwyr.

Dewis a phenodi

Prif ddarlun Iesu yn y bennod hon hyd yma yw darlun y winwydden a'r canghennau. Fel nad oes ystyr i ganghennau heb y bôn, does dim ystyr i Gristion heb Grist. Ef oedd wedi dewis a galw'i ddisgyblion at ei hunan ac at ei gilydd. Fyddai'r deuddeg byth wedi ymuno â'i gilydd oni bai am alwad Crist. Felly mae gyda phob Cristion. Cawsom ein galw at Grist gan yr Efengyl a chan fagned yr Ysbryd Glân. Nid ni sydd wedi gwneud ffafr â'r Ceidwad, ond, i'r gwrthwyneb, Ef sydd wedi'n caru, ein dewis a'n galw i'w ddilyn.

Dwyn ffrwyth

Pwrpas cyntaf yr alwad, yn ôl adnod 16, yw dwyn ffrwyth parhaol. Ni allwn ddod i berthynas glos â Christ, ni allwn fod yng Nghrist heb ddwyn ffrwyth. Bwriad y ffrwyth yw canmol gras Duw, dangos gallu Duw i ddod â daioni i fywyd pechadur. Hefyd, mae ffrwyth yn flasus i eraill sydd yn ei gymryd o'r goeden. Pan mae'r Cristion yn dwyn ffrwyth, mae'n dod â blas i fywyd ei gymydogion. Yn wir, fe ddywed Iesu mai'r ffrwyth yw'r prawf o ddilysrwydd credinwyr, fel mae ffrwyth yn dangos i ni pa fath o goedem sydd gennym. (Mathew 7: 17-18).

Dim ond yr Arglwydd Iesu Grist, trwy ei Ysbryd Glân, all gynhyrchu'r ffrwyth yma yn ein bywydau ni. Dyma ran fawr o bwrpas ein dewis a'n penodi'n ddisgyblion. Os nad oes cynnydd o ryw fath yn y ffrwyth ysbrydol hyn yn ein bywyd, mae rhywbeth mawr o'i le ar ein perthynas â'r Arglwydd Iesu.

Caru ein gilydd

Dyma ran fawr arall o bwrpas ein galwad at Grist. Mae Crist yn bwriadu i'w bobl fod yn gymuned hollol wahanol i bob cymuned arall ar wyneb y ddaear. Mae i fod yn gymuned gymysg o ran cefndir hiliol, crefyddol a chymdeithasol,

ond yn un yng Nghrist.

Mae hyn yn golygu caru'n gilydd fel y carodd Crist ni: "**Fel y cerais i chwi, felly yr ydych chwithau i garu'ch gilydd"** (Ioan 13:34). Os ydym ni wedi derbyn cariad Crist oedd yn fodlon rhoi ei einioes trosom, maddau ein holl bechodau, ein derbyn yn llawn, a rhoi addewidion i'n cadw'n ddiogel am byth, rhaid i'r un cariad lifo trwom ni at ein gilydd fel Cristnogion, ac yna at eraill hefyd. **"A dyma'r gorchymyn sydd gennym oddi wrtho ef: bod i'r sawl sy'n caru Duw garu ei gydnabod hefyd"** (1 Ioan 4:21).

Aros a gofyn

Ond mae'r cwestiwn yn codi'n naturiol, sut yn y byd allwn ni wneud hyn? Mae'r Arglwydd Iesu wedi pwysleisio eisoes yn y bennod mor hanfodol i'r 'gangen' yw aros yn y winwydden. Dyma sut y gallwn ni fod yn ffrwythlon, sef trwy lynu'n dynnach a thynnach yng Nghrist. Ystyr hyn yn ymarferol yw gwrando ar air Crist. Dyma sydd wedi'n gwneud yn lân, a dyma sydd yn mynd i gynhyrchu ffrwyth ynom, sef ufudd-dod i'w eiriau. Mae hyn yn golygu gwybod a gwrando ar air Crist yn ein bywyd bob dydd. Mae'n golygu ufudd-dod radical i'w eiriau; ac i'r graddau y byddwn ufudd, fe fyddwn ffrwythlon.

Yn ail, cawn ofyn am bob cymorth a gras i fod yn ffrwythlon ac i garu ein gilydd. Cawn ofyn yn hyderus yn enw Crist, gan wybod mai ei ewyllys Ef yw hyn. Peth diflas yw cael eich comisiwn i wneud rhywbeth, a dim adnoddau gennym i wneud y gwaith. Dyma sefyllfa'r Israeliaid yn yr Aifft wrth iddynt orfod casglu'r gwellt i wneud brics, yn ogystal ag adeiladu dinasoedd i Pharo.

Dydy hyn ddim yn digwydd yn nheyrnas Crist. Pan mae'n Brenin yn dweud wrthym i wneud rhywbeth mae'n sicrhau bod pob adnodd ar gael i'w wneud hefyd. Mae'n addo ei Ysbryd Glân. **"Am hynny, os ydych chwi, sy'n ddrwg, yn medru rhoi rhoddion da i'ch plant, gymaint mwy y rhydd y Tad nefol yr Ysbryd Glân i'r rhai sy'n gofyn ganddo"** (Luc 11:13).

Diolch am gael ein hatgoffa o alwad grasol yr Arglwydd i ni fod yn ddisgyblion ffrwythlon a chariadlon iddo; diolch hefyd ei fod wedi darparu'r adnoddau i ni gyflawni ei alwad arnom. Rhaid i ni gyffesu mai arnom ni mae'r bai am fethu â chyflawnu'r alwad fel y dylem.